**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 10 MEDI 2025 TRWY MS TEAMS (10:00 – 13:00)**

**Aelodau'r PLIA a oedd yn bresennol:** Andrew Blackmore (Cadeirydd Annibynnol), Jassa Scott (Aelod Annibynnol), Dianne Bevan (Aelod), Bethan Price (Aelod), Karen Jones (Cadeirydd y BRhE)

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Julie Rees

**Cynrychiolydd MIAA a oedd yn bresennol:** Gary Baines

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), David Burley (Pennaeth Busnes), Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd), David Carr (Rheolwr Cyllid)

**1. Cyfarfod rhwng Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA) a'r Archwilwyr (yn breifat)**

**2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

2.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kalwant Grewal, nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

**3. Datganiadau Buddiannau**

3.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2025**

4.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2025 ac fe'u mabwysiadwyd.

**5. Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol.**

5.1 Nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r materion a gododd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2025 wedi derbyn sylw.

5.2 Yr unig faterion a oedd yn weddill oedd hyfforddiant Diogelwch TGCh i'r aelodau a oedd wrthi'n cael ei drefnu gyda Chymwysterau Cymru, a llunio Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y disgwyliwyd eu rhoi ar waith erbyn diwedd mis Medi.

5.3 Cofnodwyd bod mater Yswiriant Indemniad wedi'i gwblhau gan ei fod wedi cael ei godi gyda Llywodraeth Cymru a disgwyliwyd ymateb cyn hir. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r pwynt gweithredu hwn aros ar agor nes i'r ymateb gan Lywodraeth Cymru gael ei dderbyn a'i ystyried gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC). **Cytunwyd** y byddai statws y pwynt gweithredu ynglŷn ag yswiriant

indemniad yn cael ei newid o 'wedi'i gwblhau' i 'yn weddill' hyd nes i'r holl gyngor gael ei dderbyn a'i ystyried.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 28/11/25

5.4 Nododd y Pwyllgor fod y cynllun Archwilio Mewnol wedi cael ei ddiweddaru i symud gwaith archwilio'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) i 2026-27.

5.5 Nododd y Pwyllgor y diweddariad ar TGCh a Seiberddiogelwch a lefelau ardystiad presennol y Comisiwn. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod yr holl gyrff a noddir yn cyflawni IASME Lefel 2, ond bod y Comisiwn wedi cyflawni IASME Lefel 1 yn unig ar hyn o bryd. Roedd y Comisiwn wrthi'n trafod gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd p'un a fyddai'n briodol i sefydliad o faint CDFfC geisio cyflawni IASME Lefel 2. Roedd yn aros am ymateb.

5.6 Oherwydd y cadarnhawyd na fyddai MIAA yn gallu rhoi sicrwydd ychwanegol y tu hwnt i'r ardystiadau sydd gan CDFfC ar hyn o bryd, cynigiwyd na ddylai unrhyw waith archwilio mewnol ar Seiberddiogelwch TGCh gael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, roedd y Cadeirydd o'r farn y dylid cadw'r opsiwn ar gyfer ardystiad Seiberddiogelwch TGCh ar wahân ar agor rhag ofn y byddai amgylchiadau CDFfC yn newid.

## 6. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft CDFfC ar gyfer 2024-25.

6.1 Nododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft CDFfC a gylchredwyd yn flaenorol drwy e-bost. Cytunwyd arnynt yn amodol ar ganfyddiadau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol a'r cyfrifon.

6.2 Dywedodd y Cadeirydd, yn y dyfodol, y dylai'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon drafft gael eu cyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn eu cyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod CDFfC, a **chytunwyd** y byddai'r weithdrefn hon yn cael ei dilyn o hyn ymlaen.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Mai 2026

## 7. Archwiliad Allanol o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CDFfC ar gyfer 2024-25

7.1 Adroddodd Julie Rees nad oedd yr archwiliad o gyfrifon drafft CDFfC wedi'i gwblhau eto. Y rheswm am hyn oedd oherwydd bod gwybodaeth gefndir ar gyfer anfoneb Llywodraeth Cymru, a oedd yn ofynnol i gyfrifo costau llety ased Hawl i Ddefnyddio, yn eisiau o hyd er gwaethaf nifer o geisiadau i adran Cyfleusterau Llywodraeth Cymru i'w darparu. Pan fyddai'r wybodaeth hon yn dod i law, byddai'n berthnasol i gyfrifiadau ased Hawl i Ddefnyddio CDFfC ar hyd y les pum mlynedd bresennol ar gyfer llety, ac felly ni fyddai'n achosi problem debyg yn y dyfodol. Nodwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer cymeradwyo cyfrifon blynyddol CDFfC oedd 25 Hydref 2025.

7.2 Ystyriwyd y byddai adroddiad gwersi a ddysgwyd ar ôl prosiect yn ddefnyddiol, a **chytunwyd** y dylai adroddiad o'r fath gael ei lunio a'i gyflwyno i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 28 Tachwedd 2025

**Ymgynghoriad Archwilio Cymru ar Raddfeydd Ffioedd 2026-27**

7.3 Ystyriodd y Pwyllgor ymgynghoriad Archwilio Cymru ar raddfeydd ffioedd ar gyfer adroddiad 2026-27.

7.4 Esboniodd Julie Rees fod Archwilio Cymru yn ymgynghori ar ei gyfraddau ffioedd yn flynyddol a bod y cyfraddau wedi'u seilio ar amcangyfrifon. Roedd ffioedd pob sefydliad hefyd yn dibynnu ar unrhyw waith archwilio ychwanegol a wnaed ar risgiau archwilio a amlygwyd. Nododd y Cadeirydd mai'r cynnydd ar gyfer 2026-27 oedd 5.5% a bod hyn yn fwy na'r gyfradd chwyddiant bresennol. Dywedodd Julie Rees nad oedd yn dilyn yn anochel y byddai'r cynnydd cyfartalog llawn i'r gyfradd ffioedd yn cael ei gymhwyso ym mhob achos, ac y byddai'n rhaid dangos bod yr angen am unrhyw gostau ychwanegol yn adlewyrchu gofynion gwirioneddol y gwaith archwilio.

7.5 Cytunwyd y dylai CDFfC gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi bod y cynnydd yn y gyfradd ffioedd yn fwy na'r gyfradd chwyddiant bresennol.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 12 Medi 2025

**8. Archwiliad Dwfn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.**

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y fersiwn wedi'i diweddaru o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a oedd wedi'i diwygio i'w gwneud yn fwy hygyrch a darllenadwy. Nodwyd y byddai CDFfC yn cynnal Gweithdy Adolygu Risgiau a Pharodrwydd i Dderbyn Risg rhithwir ar 29 Hydref a fyddai ar agor i holl aelodau CDFfC a'r PLIA.

8.2 Cynhaliodd y Pwyllgor archwiliad dwfn o'r risgiau y mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol amdanynt, sef Risg CR1 a Risg CR3.

8.3 O ran Risg CR1 ynglŷn â chyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, nodwyd bod y risg yn sôn am y prif gynghorau yn unig tra bod y camau gweithredu'n canolbwyntio'n bennaf ar Lywodraeth Cymru. Er y nodwyd ei bod yn hollbwysig i CDFfC gynnal deialog agored â'r prif gynghorau, roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen ehangu'r Risg i gynnwys yr holl randdeiliaid. Fe ddylai gynnwys, er enghraifft, cynghorwyr awdurdodau lleol yn ogystal â'r weithrediaeth, gan fod perygl y gallai CDFfC a'r BRhE golli hyder ochr wleidyddol prif gynghorau. Dylai CDFfC hefyd geisio amlygu unrhyw ardaloedd y mae angen cyfathrebu ac ymgysylltu'n fwy â nhw ynglŷn â'r hyn y mae CDFfC eisoes wedi'i gyflawni er mwyn cynyddu a chynnal hyder.

8.4 O ran y BRhE, dywedodd Karen Jones fod ymgysylltu presennol â rhanddeiliaid wedi canolbwyntio'n bennaf ar y pleidiau sy'n llywodraethu ar hyn o bryd, ond y byddai'n cael ei ymestyn i fod yn fwy cynhwysol yn y dyfodol.

8.5 **Cytunwyd** y dylid ehangu'r disgrifiad o'r risg, y rheolaethau a'r camau gweithredu ar gyfer Risg CR1 i gynnwys yr holl randdeiliaid.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30/09/25

8.6 O ran Risg CR3 ynglŷn â threfniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol CDFfC a'r BRhE, dywedodd Shereen Williams, o ystyried yr holl waith a wnaed i sefydlu'r BRhE ac is-bwyllgorau CDFfC, yr aelodau ychwanegol a recriwtiwyd ar gyfer CDFfC a'r PLIA, y cyngor cyfreithiol a gafwyd gyda swyddogaethau dirprwyedig strwythuredig a rhannu gwybodaeth, ei bod yn fodlon at ei gilydd bod y risg wedi cael ei lliniaru'n

sylweddol. Adroddwyd bod swyddogaeth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) wedi trosglwyddo i CDFfC yn ystod cyfnod tawel ac felly na fyddai angen i Gofrestr Risgiau IRP gael ei llunio ar unwaith. **Cytunwyd** y byddai'r cyngor cyfreithiol rheolaidd ar sefydlu'r BRhE yn cael ei ychwanegu at y rheolaethau presennol ar gyfer Risg CR3.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30/09/25

8.7 Nodwyd bod CDFfC wedi methu ei gyfrifoldeb adrodd statudol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac ystyriwyd y gallai'r sgôr risg ar gyfer CR3 fod yn rhy isel oherwydd hyn. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y cyfrifoldeb hwn wedi cael ei weithredu o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu gan Adran Noddi Llywodraeth Cymru.

8.8 Roedd y Pwyllgor o'r farn, yn sgil methu'r cyfrifoldeb adrodd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r archwiliad mewnol o drefniadau llywodraethu ymdrin â'r holl gyfrifoldebau statudol er mwyn atal CDFfC rhag methu unrhyw ofynion statudol yn y dyfodol, ac y dylai hyn gael ei gynnwys fel cam lliniarol ar gyfer Risg CR3. **Cytunwyd** y byddai archwiliad mewnol o gyfrifoldebau statudol yn cael ei ychwanegu at y camau lliniarol ar gyfer Risg CR3.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 30/09/25

## 9. Adolygiad y BRhE o'r Gofrestr Risgiau Strategol a Chynnydd Prosiect y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP).

9.1 Rhoddodd Karen Jones adroddiad i'r Pwyllgor ar Gofrestr Risgiau Strategol y BRhE ynghyd â diweddariad ar statws y prosiect WEIP. Nododd y Pwyllgor gynnydd y BRhE wrth sefydlu trefniadau llywodraethu a rheolaethau a'r Gofrestr Risgiau Strategol y disgwyliwyd iddi gael ei chymeradwyo ym mis Hydref 2025.

9.2 Roedd blaenoriaethau presennol y BRhE yn canolbwyntio ar gyflawni'r WEIP yn unol â'r manylebau erbyn mis Mawrth 2026 mewn pryd ar gyfer etholiadau mis Mai 2026. Dyma brif risg y BRhE, sef Risg 6, a oedd yn goch ar hyn o bryd o ganlyniad i'r risg uchel o niwed i enw da.

9.3 Nodwyd bod cyflawni'r WEIP yn dibynnu ar drydydd parti a holodd y Cadeirydd ba mor ymarferol oedd hyn. Ymatebodd Karen Jones drwy ddweud y bu'n fwy o waith na'r disgwyl, ond bod ganddi ffydd yn y trefniadau llywodraethu sydd ar waith a'u bod nhw'n ddigonol ar hyn o bryd. Roedd datblygwr wedi'i benodi i greu'r WEIP, ac roedd y gwaith yn mynd rhagddo. Roedd adolygiad o adnoddau'r BRhE wedi amlygu nad oedd cymorth TGCh ar gyfer y platfform, felly cytunwyd y byddai Prif Swyddog Technegol Llywodraeth Cymru yn darparu'r cymorth angenrheidiol.

9.4 Holodd y Cadeirydd a oedd y BRhE o'r farn bod ganddo ddigon o gamau lliniarol ar waith i fodloni'r holl risgiau. Dywedodd Karen Jones fod rhywfaint o risg yn parhau mewn rhai meysydd o hyd, fel materion rhannu data a'r angen am gymorth gweithredol TG trydydd parti parhaus ar ôl creu'r WEIP, ac y byddai angen mynd i'r afael â'r rhain wrth symud ymlaen.

9.5 O ran Risg 6, sef nad yw'r WEIP yn weithredol yn unol â'r rheoliadau, holodd y Cadeirydd a oedd y camau lliniarol ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gael eu cwblhau erbyn y dyddiadau cau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr eu bod ar y trywydd iawn.

9.6 O ran adroddiad Statws Prosiect y WEIP, nododd y Cadeirydd fod Statws y Prosiect yn 'Oren' a holodd beth oedd y sail i'r statws hwnnw. Dywedodd Karen Jones nad oedd yn cyd-fynd â chofrestr risgiau'r BRhE, mewn gwirionedd, ac y byddai angen ei ystyried ymhellach.

9.7 Nodwyd y byddai'r BRhE yn cynnal sesiwn hyfforddi ar etholiadau yn y dyfodol ac y byddai croeso i aelodau'r PLIA ymuno os oeddent yn dymuno. Roedd y Cadeirydd o'r farn y byddai hyn yn fuddiol.

## 10. Diweddariad ar Gynllun Archwilio Mewnol 2025-26.

10.1 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i ddiweddaru a oedd yn cynnwys y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i ddiweddaru.

## 11. Adroddiad Sicrwydd Archwilio Mewnol ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP)

11.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar y gwaith sicrwydd a wnaed gan MIAA ynglŷn â'r WEIP. Dywedodd Gary Baines fod y meini prawf ar gyfer Pwynt Gwirio 1 wedi cael eu cwblhau, a bod MIAA yn hyderus bod y materion a archwiliwyd wedi derbyn sylw a bod y trefniadau llywodraethu angenrheidiol ar waith.

## 12. Unrhyw Fater Arall.

12.1 **Cytunwyd** y byddai Cynllun Gwaith y PLIA yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod yn y dyfodol ar ddiwedd eitemau'r agenda i'w nodi.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 28 Tachwedd 2025

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Tachwedd 2025 am 09:30 a.m.